

Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol a Sesiynau Briffio Hwyluswyr

Hysbysiad Preifatrwydd

Ym mis Mehefin 2021, gwahoddodd Llywodraeth Cymru ymarferwyr o ysgolion a lleoliadau i gyflwyno datganiad o ddiddordeb i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Fel rhan o hyn, mae'r Adran Addysg, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru, yn trefnu sesiynau briffio ar hwyluso i ymarferwyr o ysgolion a lleoliadau, er mwyn cefnogi Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn recordio cyfarfodydd gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach, gyda'r bwriad iddynt fod ar gael i ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach mewn Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol. Diben y recordiadau hyn yw rhannu astudiaethau achos, profiadau ac arferion.

Bydd rhybudd yn cael ei roi cyn y cyfarfodydd sy'n cael eu recordio, er mwyn caniatáu i unigolion ddiffodd camerâu neu beidio â chymryd rhan.

Recordio Sesiynau Briffio Hwyluswyr

Mae'r sesiynau hyn yn cael eu recordio fel y gall cydweithwyr sy'n methu bod yn bresennol gael mynediad at eu cynnwys. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n arwain y sesiynau briffio yn cael eu gweld yn ystod y recordiad. Nid oes rheidrwydd ar gyfranogwyr i gynnal eu camerâu yn ystod y sesiwn. Mae'n bosibl y bydd cyfranogwyr (eu henwau a/neu fideo neu sain) yn ymddangos yn y fideo os byddant yn gofyn cwestiwn. Bydd y recordiadau'n cael eu cadw am hyd at 12 mis.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth hon, ac fe fyddwn yn prosesu'r wybodaeth yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd i ni. Bydd y recordiadau'n cael eu rhannu gyda'r holl ymarferwyr a chydweithwyr rhanbarthol a fydd yn hwyluso Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol. Bydd y recordiadau'n cael eu lanlwytho i dudalen lano'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar Hwb i hyrwyddo'r Rhwydwaith Cenedlaethol.

Recordio cyfarfodydd gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach ar y cwricwlwm newydd

Bydd rhai cyfarfodydd gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach yn cael eu recordio ar gyfer astudiaethau achos, profiadau ac arferion mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd i'w rhannu yn Sgyrsiau'r Rhwydwaith Cenedlaethol. Bydd y recordiadau'n cael eu cadw am hyd at 24 mis.

Fel uchod, Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer y wybodaeth hon a byddwn yn ei phrosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a

roddwyd i ni. Bydd y recordiadau'n cael eu rhannu gyda'r holl ymarferwyr a chydweithwyr rhanbarthol a fydd yn hwyluso Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol, a byddant yn cael eu rhannu yn y Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r cyfarfod. Bydd y recordiadau'n cael eu lanlwytho i dudalen laniog'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cael eu defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Rhwydwaith Cenedlaethol.

O dan y GDPR mae gennych chi hawl i'r canlynol:

- Hawl i gael mynediad at gopi o'ch data eich hun
- Hawl i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- Hawl i wrthwynebu neu gyfyngu ar unrhyw brosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- Hawl i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- Hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio eich data, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Jane.Ellis@llyw.cymru

Rheolwr Rhwydweithiau Cenedlaethol

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm

Gweler y manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru isod:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru.